# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **14 Chwefror 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Jordan** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Galsworthy, J.Henton, J.Jones, R.G.Jones, S.Paddison, S.Pursey, S.H.Reynolds a/ac A.J.Richards |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, N.Daniel, S.Rees, J.Woodman-Ralph, B.Griffiths, D.Griffiths, K.Jones, L.McAndrew, A.Spooner-Cleverly a/ac P.Chivers |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, S.K.Hunt, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn a/ac C.Phillips |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 8 ac 12 ar Agenda Bwrdd y Cabinet

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Y Cyng. Rob Jones, Eitem 12 ar Agenda'r Cabinet – Ymddiriedolwr Llyfrgell Gymunedol Tai-bach, Budd Personol

Y Cyng. Sean Pursey, Eitem 12 ar Agenda'r Cabinet – Ymddiriedolwr Llyfrgell Gymunedol Tai-bach, Budd Personol

Y Cyng. Scott Jones, Eitem 12 ar Agenda'r Cabinet - Ymddiriedolwr AVCL (cysylltiad â Phwll Nofio Cymer), Budd Personol

Y Cyng. Simon Knoyle, Eitem 12 ar yr Agenda – Aelod o Fwrdd Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd, Budd Personol

Y Cyng. Sian Harris, Eitem 12 ar Agenda'r Cabinet – Cadeirydd Ffrindiau Creunant, Budd Personol

Y Cyng. Wyndham Griffiths, Eitem 12 ar Agenda'r Cabinet – aelod o Bulldogs a Hyrwyddwr y Lluoedd, Budd Personol

Y Cyng. Tim Bowen, Eitem 12 ar Agenda'r Cabinet – Hyrwyddwr y Lluoedd, Budd Personol

Y Cyng. Sonia Reynolds, Eitem 12 ar Agenda'r Cabinet – Ymddiriedolwr Canolfan Maerdy, Budd Personol

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023 ac 13 Rhagfyr fel cofnod gwir a chywir.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

### Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Rheoli Gweithlu'n Strategol – Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 33, paragraff 24 o adroddiad Archwilio Cymru a gynhwysir ym mhecyn Agenda'r Cabinet. Nododd yr adroddiad nad yw graddfa risg strategol gyfredol y cyngor yn adlewyrchu'n ddigonol y risg weddilliol a wynebir oherwydd oedi wrth ddatblygu cynlluniau olyniaeth a nodi rolau busnes hanfodol. Holodd yr aelodau a yw'r gofrestr risgiau wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r pwynt hwn, a pha waith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Cadarnhaodd y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol fod y Gofrestr Risgiau Strategol yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, a bydd y broses hon yn cynnwys gwaith ar gynllunio olyniaeth. Crynhodd y Pennaeth Gwasanaeth y camau gweithredu a roddwyd ar waith i gynyddu nifer y gwasanaethau a chanddynt gynlluniau olyniaeth ar waith, gyda

sefyllfaoedd busnes hanfodol a nodwyd. Yn ystod y flwyddyn galendr ddiwethaf, mae 72 o Reolwyr wedi mynychu Gweithdai Cynllunio Olyniaeth ac mae'r gweithdy wedi'i wreiddio fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Craidd ar gyfer Rheolwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r pecyn cymorth a ddefnyddir ar gyfer cynllunio olyniaeth gyda'r nod o'i ddigideiddio. Ymgymerwyd â dadansoddiad o'r cynlluniau olyniaeth sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae Rheolwyr Atebol wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau olyniaeth ar waith.

Mynegodd yr aelodau bryder bod nifer o uwch reolwyr allweddol wedi gadael yr awdurdod ac mae profiad y swyddogion busnes hanfodol hyn wedi'i golli. Dywedodd yr aelodau nad oedd y gyfradd recriwtio yn cyfateb i nifer y swyddi gwag.

Cydnabu'r Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol bwysigrwydd rheolwyr yn ymwneud â chynllunio olyniaeth. Nodwyd bod cyfradd benodi lwyddiannus y cyngor wedi cynyddu dros gyfnod o ddwy flynedd o 82% i 93% ac mae gweithgarwch recriwtio wedi cynyddu 40%, gyda chyfradd trosiant gadarnhaol. Cydnabuwyd bod rhai swyddi'n parhau i fod yn anodd eu llenwi, yn enwedig mewn meysydd arbenigol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd bod hwn yn faes gwaith pwysig a fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn gweithredu mewn marchnad lafur dynn. Rhennir gwybodaeth am y gweithlu gyda'r Pwyllgor Personél i alluogi aelodau i olrhain cynnydd.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed am y cynnydd mewn targedau recriwtio ond mynegwyd pryder ynghylch cadw staff a'r gost ariannol o ddefnyddio taliadau atodol ar sail y farchnad mewn perthynas â swyddi anodd eu llenwi.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod taliadau atodol ar sail y farchnad yn offeryn y gellir ei ddefnyddio pan fo'n briodol ac mae disgwyl i'r cynllun gael ei adolygu. Nodwyd mai dim ond un agwedd ar y pecyn taliad cydnabyddiaeth gweithwyr yw tâl ac roedd buddion eraill yn gwneud y cyngor yn gyflogwr deniadol.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y defnydd o daliadau atodol ar sail y farchnad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio'n dda ac wedi helpu i gadw staff profiadol. Mae manteision ariannol i'w cael wrth gymhwyso taliadau

atodol ar sail y farchnad yn hytrach na'r dewis arall o ôl-lenwi swyddi gwag gyda staff asiantaeth. Nodwyd bod recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn anodd ar hyn o bryd.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr ymatebion cynhwysfawr.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

**Tendro Bysus Lleol**

Rhoddodd y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth drosolwg gryno o'r adroddiad fel y'i cynhwysir ym mhecyn agenda Bwrdd y Cabinet.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu gwaith ar y mater hwn ac am y canlyniad cadarnhaol. Holodd yr aelodau a oedd y gyllideb gyfan wedi cael ei defnyddio neu a oedd unrhyw bosibilrwydd y byddai llwybrau ychwanegol yn cael eu hail-sefydlu.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai llwybrau a dorrwyd ym mis Hydref 2023 yn cael eu hailsefydlu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y gellir cadw'r tanwariant o £200 mil yn ystod y flwyddyn i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Cydnabyddir bod diffygion o hyd yn y Rhwydweithiau, nid yw rhai o elfennau'r gwasanaethau wedi'u cofrestru. Aethpwyd ag adroddiad i'r Cabinet yn ddiweddar a oedd yn rhoi caniatâd i ddyfarnu contractau Gwobr Cymhorthdal De Minimis, gyda'r bwriad o ôl-lenwi unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg. Mae trafodaethau cynnar yn parhau mewn perthynas â masnachfreinio'r rhwydwaith bysus.

Mewn perthynas â gofynion staff, gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw sicrwydd mewn perthynas â'r fframwaith wrth i'r prosiect anelu at fasnachfreinio. Mewn perthynas â'r tanwariant o £200 mil ar wasanaethau bysus, gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch gwasanaethau masnachol nad ydynt wedi'u cofrestru a pha effaith y gall hynny ei chael cyn llenwi unrhyw fylchau.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth aelodau fod adolygiad rhwydwaith Trafnidiaeth Cymru wedi nodi meysydd lle mae angen gwelliannau i amseroedd teithio; y gobaith yw y bydd data'r adolygiad yn arwain at welliannau isadeiledd. Bydd system gwybodaeth am deithwyr amser real yn cael ei chyflwyno yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y flwyddyn nesaf, mae'n cael ei chyflwyno’n gynharach na mewn rhannau eraill o Gymru. Mae gwaith yn mynd

rhagddo o ran masnachfreinio a strwythur y rhwydwaith. Nid yw manylion llawn yr ardaloedd masnachfreinio wedi'u cyhoeddi ond mae'n debygol y bydd naw ardal yng Nghymru gyda Chastell-nedd Port Talbot yn disgyn o dan Ganolbarth / De Cymru. Cadarnhawyd bod y tîm mewnol yn cynnwys 1.2 aelod o staff a fydd yn gyfrifol am 42 contract, cofrestru, amserlennu a chwynion yn ogystal â'u dyletswyddau cyfredol. Mae angen ehangu'r tîm drwy'r broses reoli newid a chreu dwy rôl newydd o bosib i sicrhau bod y tîm yn gynaliadwy ac yn gadarn. Nodwyd bod rôl y swyddogion yn hanfodol i fusnes ac mae cynllun olyniaeth ar waith.

Dywedodd yr aelodau fod cynllunio olyniaeth yn anodd mewn adrannau llai gydag anghysondeb mawr rhwng graddau o fewn y timau.

Cadarnhaodd swyddogion fod y gofyniad am wasanaeth bysus newydd rhwng Abertawe ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot wedi'i nodi, cafodd hyn ei ystyried yn ystod y broses dendro ond ni chymerwyd unrhyw gamau oherwydd ansicrwydd ariannol. Mae gan weithredwyr wasanaethau cofrestredig i'r ysbyty ar draul y rhwydwaith lleol ac mae angen llenwi'r bwlch hwn mewn gwasanaeth.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder mewn perthynas ag unrhyw fylchau mewn gwasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2024.

Cadarnhaodd swyddogion fod trosglwyddiad di-dor yn dibynnu ar y Comisiynydd Traffig yn derbyn yr hysbysiad tymor byr a roddwyd gan First Cymru. Os nad oedd y Comisiynydd Traffig yn derbyn yr hysbysiad tymor byr, efallai y bydd toriad yn y gwasanaeth.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. **<u>COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR</u>**

Nodwyd Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor.

## 6. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 2023/24</u>**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

7. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

9. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

**Grantiau Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2024-2025 (Wedi'u heithrio o dan Baragraff 14)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Y Cabinet.

**Cynghorydd P.Rogers**
**CADEIRYDD**